# STORI KON


www.rnw.nl

Mae John Kon Kelei, a oedd yn filwr yn Sudan pan yn blentyn, yn chwarae rhan gweithiwr cymorth yn y ffilm '*The Silent Army*'. Enillodd y ffilm wobr yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes yn 2009 ac fe'i dewiswyd i gynrychioli'r Iseldiroedd yn yr Oscars yn 2010.

Roedd cymryd rhan yn y cynhyrchiad yn gorfodi Kon i wynebu ei orffennol, oherwydd pan oedd yn bedair oed cafodd ei gipio gan wrthryfelwyr. Dywedodd y rhai a'i cipiodd wrth ei rieni y byddai'n cael addysg a chartref diogel ond roedd hyn yn gelwydd llwyr. Cafodd ei orfodi gan ei gipwyr i gredu ei fod yn barod yn ddyn ac mai ei ddyletswydd felly oedd gwarchod ei bobl ac ymladd am eu hawliau. Dywedwyd wrtho ei fod yn rhy ifanc i ymladd ond bod yn rhaid i fe baratoi trwy 'adeiladu calon o garreg ac nid calon ddynol ac edrych ar bob person dynol fel rhywbeth i'w ladd'.

Aeth blynyddoedd heibio cyn iddo allu dianc o'r sefyllfa hon, ond yn y pen draw fe lwyddodd a chafodd loches yn yr Iseldiroedd. Yno, aeth yn fyfyriwr ymchwil a gweithio i gefnogi plant sy'n gorfod dioddef byw mewn ardaloedd lle mae rhyfela.

"Roedd cymryd rhan yn y ffilm yn brofiad unigryw iawn, yn arbennig oherwydd bod y bobl oedd yn chwarae rhan ffoaduriaid wedi bod yn ffoaduriaid eu hunain," meddai.


**Hunllefau**
'Mae'r atgofion am y diwrnod cyntaf o ffilmio yn fyw yn fy nghof. Bu'n rhaid i fi wisgo trowsus cwta. Dyw hynny ddim yn broblem i'r rhan fwyaf o bobl ond fydda i byth yn gwisgo trowsus cwta oherwydd mae creithiau dros fy nghoesau i gyd ar ôl yr hyn ddigwyddodd i fi yn ystod fy mhlentyndod. Gallai pawb weld y creithiau. Roedd yn brofiad poenus iawn, rhaid i fi gyfaddef. Dyw siarad am fy mhrofiadau ddim yn fy mhoeni, ond mae dangos y creithiau sy'n profi'r hanesion yn wahanol. Wedi'r diwrnod cyntaf o ffilmio cefais hunllefau.'

**Gwneud beth allaf**
"Er hynny fe hoffwn rannu ychydig o 'mhrofiadau. Trwy wneud hynny rwy'n gobeithio taflu goleuni ar fywyd plant sy'n cael eu gorfodi i ymladd. O waelod fy nghalon, rwy'n dymuno i'r erchyllterau ddod i ben. Rydw i'n dyheu i blant beidio gorfod ymladd. 'Dw i ddim yn gwybod sut y galla i gyrraedd y nod yma, ond fe wna i bopeth a alla' i er mwyn llwyddo.'

**Rhoi rhywbeth yn ôl**
Enillodd Kon radd mewn Cyfraith Rhyngwladol a Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Nijmegen yn yr Iseldiroedd. Ar ôl gorffen ei astudiaethau dychwelodd i Sudan i gynorthwyo'r plant oedd wedi cael eu heffeithio gan ryfel yn ei famwlad.
Gyda 5 person ifanc arall, sefydlodd fudiad o'r enw NYPAW, sef Network of Young People Affected by War, i helpu plant eraill. Dyma ei gyd-aelodau.


Ishmael Beah o Sierra Leone. Awdur 'A Long Way Gone: Memoirs of a Child Soldier' yw'r cyntaf.


Yna, mae Grace Akallo o Ogledd Uganda sydd wedi ysgrifennu am ei phrofiadau yn 'Girl Soldier: A Story of Hope for Northern Uganda's Children.'


Y trydydd yw Shena Gacu a fu'n filwr yn Uganda. Sefydlodd elusen i'r rhai sydd wedi dioddef oherwydd rhyfel yn Affrica.


Y pedwerydd yw Zlata Filipovic, a aned yn Sarajevo, Bosnia. Hi yw awdur 'Zlata's Diary: a Child's Life in Wartime Sarajevo.'


Yr olaf yw Emmanuel Jal o Sudan sy'n enwog fel canwr hiphop sy'n hyrwyddo heddwch yn dilyn ei brofiadau fel milwr.

*Lluniau a gwybodaeth NYPAW.org*